

Tystysgrif Lefel 3 Focus Awards mewn

# Cefnogi Darpariaeth Addysg Gorfforol a Chwaraeon Ysgol (RQF)

601/7930/2

FOCUS AWARDS

# Gwybodaeth Allweddol

Lefel: 3

Sector: Chwaraeon a Hamdden

Math o Gymhwyster: Galwedigaethol

Cyfanswm Amser y Cymhwyster: 280

Gwerth y Credydau: 28

Oriau Dysgu dan Arweiniad: 164

Statws: Ar gael i Ddysgwyr

Dulliau Asesu: Portffolio tystiolaeth

Isafswm oedran: 16



Copyright © Focus Awards. All rights reserved

# Cynnwys

Gwybodaeth Allweddol ........ 2
Diben y Cymhwyster ........ 4
Ystod Oedran ........ 4
Cwmpas Daearyddol ........ 4
Gofynion Mynediad i Ddysgwyr ........ 4
Addasiadau Rhesymol ac Ystyriaethau Arbennig ........ 5
Dulliau Asesu ........ 5
Llwybrau Cynnydd ........ 5
Deunydd Ategol a Gwefannau Defnyddiol ........ 5
Strwythur y Cymhwyster ........ 6
Unedau ........ 7

# Tystysgrif Lefel 3 Focus Awards mewn Cefnogi Darpariaeth Addysg Gorfforol a Chwaraeon Ysgol (RQF)

Rhif Cyfeirnod y Cymhwyster: 601/7930/2

Oriau Dysgu dan Arweiniad: 164

Cyfanswm Amser y Cymhwyster: 280

Credydau: 28

## Diben y Cymhwyster:

Mae Tystysgrif Lefel 3 Focus Awards mewn Cefnogi Darpariaeth Addysg Gorfforol a Chwaraeon Ysgolion (RQF) wedi'i hanelu at y dysgwyr hynny sy'n gweithio mewn lleoliad addysg gorfforol a chwaraeon ysgol ar hyn o bryd neu sy'n dymuno gweithio mewn lleoliad o'r fath.

Diben Tystysgrif Lefel 3 Focus Awards mewn Cefnogi Darpariaeth Addysg Gorfforol a Chwaraeon Ysgol (RQF) yw rhoi gwybodaeth a dealltwriaeth i ddysgwyr o ddarparu addysg gorfforol a rhaglenni mewn ysgolion. Mae'r cymhwyster yn paratoi dysgwyr ar gyfer cyflogaeth o fewn amgylchedd chwaraeon ysgol, ac yn cynnwys cyfathrebu a pherthnasoedd proffesiynol, deall datblygiad plant a phobl ifanc, diogelu, cynllunio, darparu ac adolygu Rhaglen Addysg Gorfforol a Chwaraeon Ysgol.

## Ystod Oedran:

Ceir mynediad yn ôl disgresiwn y ganolfan. Fodd bynnag, dylai dysgwyr fod yn 16 oed i ymgymryd â'r cymhwyster hwn.

## Cwmpas Daearyddol:

Mae'r cymhwyster hwn ar gael yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon.

## Gofynion Mynediad i Ddysgwyr:

Nid yw Focus Awards yn gosod unrhyw ofynion mynediad eraill, ond gall y ganolfan bennu neu ofyn am feini prawf ychwanegol.



Copyright © Focus Awards. All rights reserved

## Addasiadau Rhesymol ac Ystyriaethau Arbennig:

Cyfeiriwch at 'Polisi Addasiadau Rhesymol ac Ystyriaethau Arbennig' Focus Awards. Mae copi ar gael i'w lawrlwytho o wefan Focus Awards yn yr url canlynol: https://www.focusawards.org.uk/wp-content/uploads/2016/08/Reasonable-Adjustments.pdf

## Dulliau Asesu:

Mae'r cymhwyster hwn yn cael ei asesu'n fewnol. Rhaid i bob dysgwr greu portffolio tystiolaeth sy'n dangos ei fod wedi cyflawni'r holl ddeilliannau dysgu a'r meini prawf asesu sy'n gysylltiedig â phob uned.

Gallai'r prif ddarnau o dystiolaeth ar gyfer y portffolio gynnwys rhai neu bob un o'r canlynol:

- Arsylwadau'r asesydd
- Tystiolaeth tystion
- Cynnyrch dysgwr
- Taflenni gwaith
- Aseiniadau/prosiectau/adroddiadau
- Cofnod o gwestiynu llafar ac ysgrifenedig
- Adroddiadau dysgwyr a chymheiriaid
- Cydnabyddiaeth o ddysgu blaenorol (RPL)

## Llwybrau Cynnydd:

Gall dysgwyr sydd am symud ymlaen o'r cymhwyster hwn ddatblygu eu sgiliau ymhellach drwy'r canlynol:

- Tystysgrif Lefel 3 Focus Awards mewn Cynllunio a Darparu Hyfforddiant Personol

## Deunydd Ategol a Gwefannau Defnyddiol:

- https://focusawards.org.uk/supportingmaterials
- https://ofqual.gov.uk

## Strwythur y Cymhwyster:

Er mwyn ennill y cymhwyster hwn yn llwyddiannus, rhaid i ddysgwyr gwblhau 8 uned orfodol a chyflawni cyfanswm o 28 o gredydau.

## Unedau Gorfodol:

| Teitl yr Uned | Cyfeirnod yr Uned | Lefel | Credydau | Oriau Dysgu dan Arweiniad |
|---|---|---|---|---|
| Cyfathrebu a pherthnasoedd proffesiynol â phlant, pobl ifanc ac oedolion | F/601/3327 | 3 | 2 | 10 |
| Ysgolion fel sefydliadau | A/601/3326 | 3 | 3 | 15 |
| Deall Datblygiad Plant a Phobl Ifanc | L/601/1693 | 3 | 4 | 30 |
| Deall Sut i Ddiogelu Lles Plant a Phobl Ifanc | Y/601/1695 | 3 | 3 | 25 |
| Cefnogi asesu ar gyfer dysgu | A/601/4072 | 3 | 4 | 20 |
| Cynllunio Rhaglen Addysg Gorfforol a Chwaraeon Ysgol | J/505/1759 | 3 | 5 | 29 |
| Cyflwyno Rhaglen Addysg Gorfforol a Chwaraeon Ysgol | F/505/1761 | 3 | 4 | 22 |
| Adolygu Darpariaeth Rhaglen Addysg Gorfforol a Chwaraeon Ysgol | J/505/1762 | 3 | 3 | 13 |

FOCUS AWARDS



Copyright © Focus Awards. All rights reserved

# Unedau

| | | | |
|---|---|---|---|
| Teitl yr Uned: | Cyfathrebu a pherthnasoedd proffesiynol â phlant, pobl ifanc ac oedolion | | |
| Rhif yr Uned: | F/601/3327 | | |
| Lefel: | 3 | | |
| Oriau Dysgu dan Arweiniad: | 10 | | |
| Credydau: | 2 | | |
| Manylion yr uned: Nod yr uned hon yw rhoi gwybodaeth a dealltwriaeth i'r dysgwr o egwyddorion datblygu perthnasoedd cadarnhaol â phlant, pobl ifanc ac oedolion a deddfwriaeth, polisïau a gweithdrefnau ar gyfer cyfrinachedd a rhannu gwybodaeth, gan gynnwys diogelu data | | | |
| Deilliant Dysgu<br>Bydd y dysgwr yn: | | Maen Prawf Asesu<br>Gall y dysgwr: | |
| 1 | Deall egwyddorion datblygu perthnasoedd cadarnhaol â phlant, pobl ifanc ac oedolion | 1.1 | Esbonio pam mae cyfathrebu effeithiol yn bwysig wrth ddatblygu perthnasoedd cadarnhaol â phlant, pobl ifanc ac oedolion |
| | | 1.2 | Esbonio egwyddorion meithrin perthynas â phlant, pobl ifanc ac oedolion |
| | | 1.3 | Esbonio sut y gall gwahanol gyd-destunau cymdeithasol, proffesiynol a diwylliannol effeithio ar berthnasoedd a'r ffordd y mae pobl yn cyfathrebu |
| 2 | Deall sut i gyfathrebu â phlant, pobl ifanc ac oedolion | 2.1 | Esbonio'r sgiliau sydd eu hangen i gyfathrebu â phlant a phobl ifanc |
| | | 2.2 | Esbonio sut i addasu cyfathrebu â phlant a phobl ifanc ar gyfer:<br>• Oedran y plentyn neu'r person ifanc<br>• Cyd-destun y cyfathrebu<br>• Gwahaniaethau cyfathrebu |
| | | 2.3 | Esbonio'r prif wahaniaethau rhwng cyfathrebu ag oedolion a chyfathrebu â phlant a phobl ifanc |
| | | 2.4 | Esbonio sut i addasu cyfathrebu i ddiwallu gwahanol anghenion cyfathrebu oedolion |
| | | 2.5 | Esbonio sut i reoli anghytundebau â phlant, pobl ifanc ac oedolion |
| 3 | Deall deddfwriaeth, polisïau a gweithdrefnau ar gyfer cyfrinachedd a rhannu gwybodaeth, gan gynnwys diogelu data | 3.1 | Crynhoi'r prif bwyntiau deddfwriaeth a'r gweithdrefnau sy'n ymwneud â chyfrinachedd, diogelu data a datgelu gwybodaeth |
| | | 3.2 | Esbonio pwysigrwydd rhoi sicrwydd i blant, pobl ifanc ac oedolion ynghylch cyfrinachedd gwybodaeth a rennir a therfynau hyn |
| | | 3.3 | Cyfiawnhau'r mathau o sefyllfa pan fydd yn rhaid torri protocolau cyfrinachedd |

FOCUS AWARDS

| | | | |
|---|---|---|---|
| Teitl yr Uned: | Ysgolion fel sefydliadau | | |
| Rhif yr Uned: | A/601/3326 | | |
| Lefel: | 3 | | |
| Oriau Dysgu dan Arweiniad: | 15 | | |
| Credydau: | 3 | | |

Manylion yr uned: Nod yr uned hon yw rhoi gwybodaeth i'r dysgwr o rolau cyrff rheoleiddio sy'n berthnasol i'r sector addysg sy'n bodoli i fonitro a gorfodi'r fframwaith deddfwriaethol, gan gynnwys; cyrff cyffredinol fel yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch a chyrff rheoleiddio penodol i ysgolion. Ynghyd â strwythur addysg o'r blynyddoedd cynnar i addysg ôl-orfodol.

| Deilliant Dysgu<br>Bydd y dysgwr yn: | | Maen Prawf Asesu<br>Gall y dysgwr: | |
|---|---|---|---|
| 1 | Gwybod strwythur addysg o'r blynyddoedd cynnar i addysg ôl-orfodol | 1.1 | Crynhoi hawl a darpariaeth ar gyfer addysg blynyddoedd cynnar |
| | | 1.2 | Esbonio nodweddion y gwahanol fathau o ysgolion mewn perthynas â chyfnod(au) addysgol a llywodraethu ysgolion |
| | | 1.3 | Esbonio'r opsiynau ôl-16 ar gyfer pobl ifanc ac oedolion |
| 2 | Deall sut mae ysgolion yn cael eu trefnu o ran rolau a chyfrifoldebau | 2.1 | Esbonio pwrpas strategol:<br>• llywodraethwyr ysgol<br>• uwch dîm rheoli<br>• rolau statudol eraill e.e. Cydlynydd AAA<br>• athrawon<br>• rolau staff cymorth |
| | | 2.2 | Esbonio rolau gweithwyr proffesiynol allanol a all weithio gydag ysgol e.e. seicolegydd addysgol |
| 3 | Deall ethos, cenhadaeth, nodau a gwerthoedd ysgol | 3.1 | Esbonio sut y gall ethos, cenhadaeth, nodau a gwerthoedd ysgol gael eu hadlewyrchu mewn arferion gwaith |
| | | 3.2 | Gwerthuso dulliau o gyfathrebu ethos, cenhadaeth, nodau a gwerthoedd ysgol |
| 4 | Gwybod am y ddeddfwriaeth sy'n effeithio ar ysgolion | 4.1 | Crynhoi'r cyfreithiau a'r codau ymarfer sy'n effeithio ar waith mewn ysgolion |
| | | 4.2 | Esbonio sut mae deddfwriaeth yn effeithio ar y ffordd y mae ysgolion yn gweithio |
| | | 4.3 | Esbonio rolau cyrff rheoleiddio sy'n berthnasol i'r sector addysg sy'n bodoli i fonitro a gorfodi'r fframwaith deddfwriaethol, gan gynnwys:<br>• cyrff cyffredinol fel yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch<br>• cyrff rheoleiddio sy'n benodol i ysgolion |
| 5 | Deall pwrpas polisïau a gweithdrefnau ysgolion | 5.1 | Esbonio pam mae gan ysgolion bolisïau a gweithdrefnau |
| | | 5.2 | Crynhoi'r polisïau a'r gweithdrefnau y gall fod gan ysgolion mewn perthynas â:<br>• Staff<br>• Lles disgyblion<br>• Dysgu ac addysgu |

FOCUS AWARDS



Copyright © Focus Awards. All rights reserved

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | • Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant<br>• Ymgysylltu â rhieni |
| | | 5.3 | Gwerthuso sut y gall polisïau a gweithdrefnau ysgolion gael eu datblygu a'u cyfathrebu |
| 6 | Deall y cyd-destun ehangach y mae ysgolion yn gweithredu ynddo | 6.1 | Crynhoi rolau a chyfrifoldebau llywodraeth genedlaethol a lleol ar gyfer polisi ac ymarfer addysg |

Copyright © Focus Awards. All rights reserved

| | |
|---|---|
| Teitl yr Uned: | Deall Datblygiad Plant a Phobl Ifanc |
| Rhif yr Uned: | L/601/1693 |
| Lefel: | 3 |
| Oriau Dysgu dan Arweiniad: | 30 |
| Credydau: | 3 |

Manylion yr uned: Nod yr uned hon yw rhoi gwybodaeth a dealltwriaeth i'r dysgwr o'r ffactorau sy'n dylanwadu ar ddatblygiad plant a phobl ifanc a sut mae'r rhain yn effeithio ar ymarfer, a sut i fonitro datblygiad plant a phobl ifanc ac ymyriadau a ddylai ddigwydd os nad yw hyn yn dilyn y patrwm disgwyliedig.

| Deilliant Dysgu<br>Bydd y dysgwr yn: | | Maen Prawf Asesu<br>Gall y dysgwr: | |
|---|---|---|---|
| 1 | Deall y patrwm datblygu disgwyliedig ar gyfer plant a phobl ifanc o'u genedigaeth - 19 oed. | 1.1 | Esbonio dilyniant a chyfradd pob agwedd ar ddatblygiad o enedigaeth – 19 oed. |
| | | 1.2 | Esbonio'r gwahaniaeth rhwng dilyniant datblygu a chyfradd datblygu a pham mae'r gwahaniaeth yn bwysig. |
| 2 | Deall y ffactorau sy'n dylanwadu ar ddatblygiad plant a phobl ifanc a sut mae'r rhain yn effeithio ar ymarfer. | 2.1 | Esbonio sut mae datblygiad plant a phobl ifanc yn cael ei ddylanwadu gan ystod o ffactorau personol |
| | | 2.2 | Esbonio sut mae datblygiad plant a phobl ifanc yn cael ei ddylanwadu gan ystod o ffactorau allanol |
| | | 2.3 | Esbonio sut mae damcaniaethau datblygu a fframweithiau i gefnogi datblygiad yn dylanwadu ar ymarfer cyfredol. |
| 3 | Deall sut i fonitro datblygiad plant a phobl ifanc a'r ymyriadau a ddylai ddigwydd os nad yw hyn yn dilyn y patrwm disgwyliedig. | 3.1 | Esbonio sut i fonitro datblygiad plant a phobl ifanc gan ddefnyddio dulliau gwahanol. |
| | | 3.2 | Esbonio'r rhesymau pam nad yw datblygiad plant a phobl ifanc o bosibl yn dilyn y patrwm disgwyliedig. |
| | | 3.3 | Esbonio sut y gall anabledd effeithio ar ddatblygiad. |
| | | 3.4 | Esbonio sut y gall gwahanol fathau o ymyriadau hyrwyddo canlyniadau cadarnhaol i blant a phobl ifanc lle nad yw datblygiad yn dilyn y patrwm disgwyliedig |
| 4 | Deall pwysigrwydd ymyrraeth gynnar i gefnogi anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu plant a phobl ifanc. | 4.1 | Dadansoddi pwysigrwydd nodi oedi ac anhwylderau lleferydd, iaith a chyfathrebu yn gynnar a'r risgiau posibl os cânt eu nodi'n hwyr. |
| | | 4.2 | Esbonio sut mae timau amlasiantaethol yn gweithio gyda'i gilydd i gefnogi lleferydd, iaith a chyfathrebu. |
| | | 4.3 | Esbonio sut mae chwarae a gweithgareddau yn cael eu defnyddio i gefnogi datblygiad lleferydd, iaith a chyfathrebu. |
| 5 | Deall effeithiau posibl cyfnodau pontio ar ddatblygiad plant a phobl ifanc. | 5.1 | Esbonio sut y gall gwahanol fathau o gyfnodau pontio effeithio ar ddatblygiad plant a phobl ifanc. |
| | | 5.2 | Gwerthuso'r effaith ar blant a phobl ifanc o gael perthnasoedd cadarnhaol yn ystod cyfnodau pontio. |

Copyright © Focus Awards. All rights reserved

| | |
|---|---|
| Teitl yr Uned: | Deall Sut i Ddiogelu Lles Plant a Phobl Ifanc |
| Rhif yr Uned: | Y/601/1695 |
| Lefel: | 3 |
| Oriau Dysgu dan Arweiniad: | 25 |
| Credydau: | 3 |

Manylion yr uned: Nod yr uned hon yw rhoi gwybodaeth a dealltwriaeth i'r dysgwr o'r brif ddeddfwriaeth, canllawiau, polisïau a gweithdrefnau ar gyfer diogelu plant a phobl ifanc a phwysigrwydd gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill i ddiogelu plant a phobl ifanc.

| Deilliant Dysgu<br>Bydd y dysgwr yn: | | Maen Prawf Asesu<br>Gall y dysgwr: | |
|---|---|---|---|
| 1 | Deall y brif ddeddfwriaeth, canllawiau, polisïau a gweithdrefnau ar gyfer diogelu plant a phobl ifanc. | 1.1 | Amlinellu deddfwriaeth, canllawiau, polisïau a gweithdrefnau presennol o fewn ei wlad ei hun yn y DU sy'n effeithio ar ddiogelu plant a phobl ifanc. |
| | | 1.2 | Esbonio amddiffyn plant o fewn y cysyniad ehangach o ddiogelu plant a phobl ifanc. |
| | | 1.3 | Dadansoddi sut mae canllawiau, polisïau a gweithdrefnau cenedlaethol a lleol ar gyfer diogelu yn effeithio ar waith o ddydd i ddydd gyda phlant a phobl ifanc. |
| | | 1.4 | Esbonio pryd a pham mae angen ymchwiliadau ac adolygiadau achos difrifol a sut mae rhannu'r canfyddiadau yn llywio ymarfer. |
| | | 1.5 | Esbonio sut mae'r prosesau a ddefnyddir gan ei leoliad gwaith neu ei wasanaeth ei hun yn cydymffurfio â deddfwriaeth sy'n ymdrin â diogelu data a thrin a rhannu gwybodaeth. |
| 2 | Deall pwysigrwydd gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill i ddiogelu plant a phobl ifanc. | 2.1 | Esbonio pwysigrwydd diogelu plant a phobl ifanc. |
| | | 2.2 | Esbonio pwysigrwydd dull sy'n canolbwyntio ar y plentyn neu'r person ifanc. |
| | | 2.3 | Esbonio beth a olygir gan weithio mewn partneriaeth yng nghyd-destun diogelu. |
| | | 2.4 | Disgrifio rolau a chyfrifoldebau'r gwahanol sefydliadau a all fod yn gysylltiedig pan fo plentyn neu berson ifanc wedi cael ei gam-drin neu ei niweidio. |
| 3 | Deall pwysigrwydd sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael eu diogelu a'u hamddiffyn yn y lleoliad gwaith. | 3.1 | Esbonio pam ei bod yn bwysig sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael eu diogelu rhag niwed yn y lleoliad gwaith. |
| | | 3.2 | Esbonio'r polisïau a'r gweithdrefnau sydd ar waith i ddiogelu plant a phobl ifanc ac oedolion sy'n gweithio gyda nhw. |
| | | 3.3 | Gwerthuso ffyrdd y gellir rhoi gwybod am bryderon am arferion gwael a sicrhau bod chwythwyr chwiban a'r rhai y mae eu harferion neu eu hymddygiad yn cael ei gwestiynu yn cael eu diogelu. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | 3.4 | Esbonio sut y gall ymarferwyr gymryd camau i ddiogelu eu hunain yn eu harferion bob dydd yn y lleoliad gwaith ac ar ymweliadau oddi ar y safle. |
| 4 | Deall sut i ymateb i dystiolaeth neu bryderon bod plentyn neu berson ifanc wedi cael ei gam-drin neu ei niweidio. | 4.1 | Disgrifio'r arwyddion, symptomau, dangosyddion ac ymddygiadau posibl a all achosi pryder yng nghyd-destun diogelu. |
| | | 4.2 | Disgrifio'r camau i'w cymryd os bydd plentyn neu berson ifanc yn honni niwed neu gamdriniaeth yn unol â pholisïau a gweithdrefnau ei leoliad ei hun. |
| | | 4.3 | Esbonio'r hawliau sydd gan blant, pobl ifanc a'u gofalwyr mewn sefyllfaoedd lle mae niwed neu gamdriniaeth yn cael ei hamau neu ei honni. |
| 5 | Deall sut i ymateb i dystiolaeth neu bryderon bod plentyn neu berson ifanc wedi cael ei fwlio. | 5.1 | Esbonio gwahanol fathau o fwlio a'r effeithiau posibl ar blant a phobl ifanc. |
| | | 5.2 | Amlinellu'r polisïau a'r gweithdrefnau y dylid eu dilyn mewn ymateb i bryderon neu dystiolaeth o fwlio ac esbonio'r rhesymau pam eu bod ar waith. |
| | | 5.3 | Esbonio sut i gefnogi plentyn neu berson ifanc a/neu ei deulu pan fo amheuaeth neu honiad o fwlio. |
| 6 | Deall sut i weithio gyda phlant a phobl ifanc i gefnogi eu diogelwch a'u lles. | 6.1 | Esbonio sut i gefnogi hunanhyder a hunan-barch plant a phobl ifanc. |
| | | 6.2 | Dadansoddi pwysigrwydd cefnogi gwytnwch mewn plant a phobl ifanc. |
| | | 6.3 | Esbonio pam ei bod yn bwysig gweithio gyda'r plentyn neu'r person ifanc i sicrhau bod ganddo strategaethau i'w ddiogelu ei hun a gwneud penderfyniadau am ddiogelwch. |
| | | 6.4 | Esbonio ffyrdd o rymuso plant a phobl ifanc i wneud dewisiadau cadarnhaol a gwybodus sy'n cefnogi eu lles a'u diogelwch. |
| 7 | Deall pwysigrwydd e-ddiogelwch i blant a phobl ifanc. | 7.1 | Esbonio'r risgiau a'r canlyniadau posibl i blant a phobl ifanc o fod ar-lein ac o ddefnyddio ffôn symudol. |
| | | 7.2 | Disgrifio ffyrdd o leihau risg i blant a phobl ifanc o ran:<br>• rhwydweithio cymdeithasol<br>• defnyddio'r rhyngrwyd<br>• prynu ar-lein<br>• defnyddio ffôn symudol. |



Copyright © Focus Awards. All rights reserved

| | | | |
|---|---|---|---|
| Teitl yr Uned: | Cefnogi asesu ar gyfer dysgu | | |
| Rhif yr Uned: | A/601/4072 | | |
| Lefel: | 3 | | |
| Oriau Dysgu dan Arweiniad: | 20 | | |
| Credydau: | 4 | | |
| Manylion yr uned: Nod yr uned hon yw rhoi gwybodaeth a dealltwriaeth i'r dysgwr o bwrpas a nodweddion asesu ar gyfer dysgu a gallu defnyddio strategaethau asesu i hyrwyddo dysgu | | | |
| Deilliant Dysgu<br>Bydd y dysgwr yn: | | Maen Prawf Asesu<br>Gall y dysgwr: | |
| 1 | Deall pwrpas a nodweddion asesu ar gyfer dysgu | 1.1 | Cymharu a chyferbynnu rolau'r athro a'r ymarferydd cymorth dysgu wrth asesu cyflawniadau dysgwyr |
| | | 1.2 | Crynhoi'r gwahaniaeth rhwng asesu ffurfiannol a chrynodol |
| | | 1.3 | Esbonio nodweddion asesu ar gyfer dysgu |
| | | 1.4 | Esbonio pwysigrwydd a manteision asesu ar gyfer dysgu |
| | | 1.5 | Esbonio sut y gall asesu ar gyfer dysgu gyfrannu at gynllunio ar gyfer dysgu yn y dyfodol gan:<br>• yr athro<br>• y dysgwyr<br>• yr ymarferydd cymorth dysgu |
| 2 | Gallu defnyddio strategaethau asesu i hyrwyddo dysgu | 2.1 | Cael y wybodaeth sydd ei hangen i gefnogi asesu ar gyfer dysgu |
| | | 2.2 | Defnyddio iaith glir ac enghreifftiau i drafod ac egluro nodau dysgu personol a meini prawf ar gyfer asesu cynnydd gyda dysgwyr |
| | | 2.3 | Defnyddio strategaethau a chyfleoedd asesu i gael gwybodaeth a llunio barn ynghylch pa mor dda y mae dysgwyr yn cymryd rhan mewn gweithgareddau a'r cynnydd y maent yn ei wneud |
| | | 2.4 | Rhoi adborth adeiladol i ddysgwyr i'w helpu i ddeall yr hyn y maent wedi'i wneud yn dda a'r hyn y mae angen iddynt ei ddatblygu |
| | | 2.5 | Darparu cyfleoedd ac anogaeth i ddysgwyr wella eu gwaith |
| 3 | Gallu cefnogi dysgwyr i adolygu eu strategaethau dysgu a'u cyflawniadau | 3.1 | Defnyddio gwybodaeth a gafwyd o fonitro cynnydd a chyfranogiad dysgwyr i helpu dysgwyr i adolygu eu strategaethau dysgu, eu cyflawniadau a'u hanghenion dysgu yn y dyfodol |
| | | 3.2 | Gwrando'n ofalus ar ddysgwyr a'u hannog yn gadarnhaol i gyfleu eu hanghenion a'u syniadau ar gyfer dysgu yn y dyfodol |
| | | 3.3 | Cefnogi dysgwyr i ddefnyddio asesu gan gymheiriaid a hunanasesu i werthuso eu cyflawniadau dysgu |
| | | 3.4 | Cefnogi dysgwyr i wneud y canlynol:<br>• myfyrio ar eu dysgu<br>• nodi'r cynnydd y maent wedi'i wneud |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | • nodi eu hanghenion dysgu sy'n dod i'r amlwg<br>• nodi cryfderau a gwendidau eu strategaethau dysgu a chynllunio sut i'w gwella |
| 4 | Gallu cyfrannu at adolygu asesu ar gyfer dysgu | 4.1 | Rhoi adborth i'r athro ar y canlynol:<br>• cyfranogiad dysgwyr a chynnydd yn y gweithgareddau dysgu<br>• ymgysylltiad dysgwyr ag asesu ar gyfer dysgu a'u hymateb iddo<br>• cynnydd dysgwyr wrth gymryd cyfrifoldeb dros eu dysgu eu hunain |
| | | 4.2 | Defnyddio deilliannau asesu ar gyfer dysgu i wella ei gyfraniad ei hun at gefnogi dysgu a myfyrio arno |


Copyright © Focus Awards. All rights reserved

| | |
|---|---|
| Teitl yr Uned: | Cynllunio Rhaglen Addysg Gorfforol a Chwaraeon Ysgol |
| Rhif yr Uned: | J/505/1759 |
| Lefel: | 3 |
| Oriau Dysgu dan Arweiniad: | 29 |
| Credydau: | 5 |

Manylion yr uned: Nod yr uned hon yw rhoi'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth i'r dysgwr o allu dylunio a chynllunio rhaglen gweithgareddau Addysg Gorfforol a Chwaraeon Ysgol o Ansawdd Uchel i hyrwyddo cyflawniad mewn Addysg Gorfforol a gallu nodi a chael gafael ar adnoddau i gefnogi'r gwaith o ddarparu rhaglen Addysg Gorfforol a Chwaraeon Ysgol o Ansawdd Uchel.

| Deilliant Dysgu<br>Bydd y dysgwr yn: | | Maen Prawf Asesu<br>Gall y dysgwr: | |
|---|---|---|---|
| 1 | Gallu dylunio a chynllunio rhaglen gweithgareddau Addysg Gorfforol a Chwaraeon Ysgol o Ansawdd Uchel i hyrwyddo cyflawniad mewn Addysg Gorfforol | 1.1 | Cyfiawnhau strwythur a chynnwys rhaglen flynyddol o weithgareddau Addysg Gorfforol a Chwaraeon Ysgol |
| | | 1.2 | Gwahaniaethu'r gweithgareddau sydd i'w cynnwys mewn rhaglen flynyddol, yn gyson â gwerthuso:<br>• Rhaglen Astudio'r Cwricwlwm Cenedlaethol ar gyfer Addysg Gorfforol<br>• Gweithgarwch corfforol allgyrsiol<br>• Datblygiad / Cyfnod Allweddol Disgybl(ion)<br>• Cynnydd a chyrhaeddiad disgyblion<br>• Nodau sy'n gysylltiedig â meysydd eraill y Cwricwlwm Cenedlaethol |
| | | 1.3 | Datblygu cynllun amlinellol ar gyfer uned waith o fewn y rhaglen flynyddol |
| | | 1.4 | Datblygu cynlluniau sesiwn unigol sy'n:<br>• cynnwys deilliannau heriol i fodloni disgwyliadau uchel sy'n cyfateb i gyfnod, galluoedd ac anghenion disgyblion<br>• helpu disgyblion i gyflawni nodau yn erbyn amcanion Addysg Gorfforol a nodir<br>• sicrhau bod gweithgareddau a gynlluniwyd yn gyson ag Ymarfer Diogel y cytunwyd arno mewn Addysg Gorfforol a Chwaraeon Ysgol ac yn cael eu cysylltu'n gynyddol |
| | | 1.5 | Datblygu cynlluniau wrth gefn i fynd i'r afael ag amrywiaeth o sefyllfaoedd |
| | | 1.6 | Adolygu a diwygio'r gweithgareddau a gynlluniwyd gydag athro, disgyblion ac eraill |
| 2 | Gallu nodi a chael gafael ar adnoddau i gefnogi darparu rhaglen Addysg Gorfforol a Chwaraeon Ysgol o Ansawdd Uchel | 2.1 | Egluro ffynonellau gwybodaeth ac adnoddau i gefnogi'r broses gynllunio |
| | | 2.2 | Gwahaniaethu'r adnoddau sydd eu hangen i ddarparu'r uned waith a sesiynau unigol sydd wedi'u cynllunio |
| | | 2.3 | Cyfiawnhau sut mae'r adnoddau arfaethedig yn bodloni cyfnod, galluoedd ac anghenion disgyblion |
| | | 2.4 | Esbonio sut i gael gafael ar yr adnoddau sydd eu hangen |



Copyright © Focus Awards. All rights reserved

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | 2.5 | Sicrhau bod yr adnoddau'n cydymffurfio â'r canllawiau a dderbynnir ar gyfer Ymarfer Diogel mewn Addysg Gorfforol a Chwaraeon Ysgol |
| 3 | Gallu cynllunio ar gyfer adolygu rhaglen Addysg Gorfforol a Chwaraeon Ysgol o Ansawdd Uchel | 3.1 | Cyfiawnhau pwy fydd yn cyfrannu at y broses adolygu arfaethedig |
| | | 3.2 | Gwahaniaethu dulliau hyfyw i adolygu'r rhaglen sy'n ddiogel, yn ddilys ac yn ddibynadwy |
| | | 3.3 | Datblygu amserlen adolygu ar gyfer y rhaglen |
| | | 3.4 | Adolygu a diwygio'r amserlen adolygu gydag athro, disgyblion ac eraill |

| | |
|---|---|
| Rhif yr Uned: | F/505/1761 |
| Lefel: | 3 |
| Oriau Dysgu dan Arweiniad: | 22 |
| Credydau: | 4 |

Manylion yr uned: Nod yr uned hon yw rhoi'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth i'r dysgwr o allu sefydlu a chynnal perthnasoedd â disgyblion ac eraill sy'n ymwneud â chyflwyno'r Rhaglen Addysg Gorfforol a Chwaraeon Ysgol.

| Deilliant Dysgu<br>Bydd y dysgwr yn: | | Maen Prawf Asesu<br>Gall y dysgwr: | |
|---|---|---|---|
| 1 | Gallu sefydlu a chynnal perthnasoedd â disgyblion ac eraill sy'n ymwneud â chyflwyno'r Rhaglen Addysg Gorfforol a Chwaraeon Ysgol | 1.1 | Crynhoi gwybodaeth am y rhaglen i athrawon, disgyblion, rhieni ac eraill (e.e. hyfforddwyr eraill neu reolwyr cyfleuster) |
| | | 1.2 | Cydlynu dyrannu adnoddau a rhoi gwybodaeth i eraill am eu cyfrifoldebau a'u cyfraniadau i'r rhaglen |
| | | 1.3 | Gweithredu'r adnoddau sydd eu hangen i ddarparu uned waith a sesiynau unigol wedi'u cynllunio o fewn y rhaglen flynyddol o weithgarwch Addysg Gorfforol a Chwaraeon Ysgol |
| | | 1.4 | Sicrhau bod eraill yn deall ac yn cymhwyso'r canllawiau ar gyfer Ymarfer Diogel mewn Addysg Gorfforol a Chwaraeon Ysgol wrth weithio gyda disgyblion |
| | | 1.5 | Sefydlu perthnasoedd cadarnhaol gyda disgyblion ac eraill |
| | | 1.6 | Cymhwyso arddulliau cyfathrebu sy'n briodol i'r canlynol:<br>• Disgybl(ion)<br>• Eraill<br>• Darparu'r rhaglen |
| | | 1.7 | Dangos sut i ddarparu cyfleoedd i ddisgyblion fwynhau'r profiad dysgu |
| | | 1.8 | Rheoli ymgysylltiad disgyblion â'i gilydd yn effeithiol ac yn deg, mewn ffordd sy'n briodol i'w hanghenion |
| | | 1.9 | Dangos sut i addasu ei ddarpariaeth ei hun i weddu i'r amgylchedd sy'n newid ac anghenion a galluoedd disgyblion |
| 2 | Gallu cyflwyno rhaglen Addysg Gorfforol a Chwaraeon Ysgol o Ansawdd Uchel | 2.1 | Gweithredu'r rhaglen flynyddol o weithgarwch Addysg Gorfforol a Chwaraeon Ysgol |
| | | 2.2 | Dangos sut i ddyrannu gweithgareddau i ddisgyblion mewn ffordd sy'n briodol iddynt ac sy'n debygol o sicrhau cymaint â phosibl o ddysgu |
| | | 2.3 | Darparu arddangosiadau sy'n dechnegol gywir |
| | | 2.4 | Esbonio'r gweithgareddau mewn ffordd sy'n briodol i lefel dealltwriaeth y disgyblion |
| | | 2.5 | Cymhwyso technegau ysgogol i helpu disgyblion i gyflawni nodau yn erbyn amcanion Addysg Gorfforol a nodir |
| | | 2.6 | Rhoi dulliau ar waith i wirio dealltwriaeth disgyblion |



Copyright © Focus Awards. All rights reserved

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | 2.7 | Dangos sut i gefnogi ystod o alluoedd i alluogi disgyblion i ddysgu a chymryd rhan yn effeithiol |
| | | 2.8 | Cymhwyso egwyddorion cynhwysiant i ddiwallu ystod o anghenion dysgwyr |
| 3 | Gallu adolygu cynnydd disgybl(ion) wrth weithredu'r rhaglen Addysg Gorfforol a Chwaraeon Ysgol | 3.1 | Gwerthuso perfformiad disgybl(ion) gan ddefnyddio dulliau a nodwyd yn y cynllun gwerthuso |
| | | 3.2 | Casglu gwybodaeth ar werthuso cynnydd a chyrhaeddiad disgybl(ion) |
| | | 3.3 | Grymuso disgyblion i werthuso a chydnabod eu cyflawniadau |
| | | 3.4 | Dangos sut i roi adborth priodol, cadarnhaol ac amserol |
| | | 3.5 | Gwerthuso cynnydd disgybl(ion) mewn modd teg a chyfiawn |
| | | 3.6 | Nodi a chytuno ar welliannau i'r rhaglen o ganlyniad i'r gweithgareddau adolygu |
| | | 3.7 | Cofnodi gwerthusiadau mewn fformat a fydd yn caniatáu iddynt gael eu rhannu |
| 4 | Deall sut i addasu'r rhaglen Addysg Gorfforol a Chwaraeon Ysgol mewn ymateb i adborth a newidiadau mewn anghenion | 4.1 | Dadansoddi nodau ac elfennau'r rhaglen Addysg Gorfforol a Chwaraeon Ysgol y gall fod angen eu haddasu |
| | | 4.2 | Datblygu cynlluniau wrth gefn |
| | | 4.3 | Cyfiawnhau a chytuno ar addasiadau i nodau a rhaglenni gydag athro/athrawon, disgybl/disgyblion ac eraill sy'n berthnasol |
| | | 4.4 | Esbonio goblygiadau adnoddau o ganlyniad i addasiadau a wnaed |
| | | 4.5 | Cyflwyno'r addasiadau i athro/athrawon, disgybl/disgyblion ac eraill sy'n berthnasol, sy'n briodol i'w hanghenion |
| | | 4.6 | Monitro effaith gwelliannau a wnaed ac addasu'r rhaglen yn ôl yr angen |

Copyright © Focus Awards. All rights reserved

| | | | |
|---|---|---|---|
| Teitl yr Uned: | Adolygu Darpariaeth Rhaglen Addysg Gorfforol a Chwaraeon Ysgol | | |
| Rhif yr Uned: | J/505/1762 | | |
| Lefel: | 3 | | |
| Oriau Dysgu dan Arweiniad: | 13 | | |
| Credydau: | 3 | | |
| Manylion yr uned: Nod yr uned hon yw rhoi'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth i'r dysgwr o allu monitro gweithrediad rhaglen Addysg Gorfforol a Chwaraeon Ysgol o Ansawdd Uchel ac adolygu ei gyfraniadau ei hun i'r rhaglen Addysg Gorfforol a Chwaraeon Ysgol. | | | |
| Deilliant Dysgu<br>Bydd y dysgwr yn: | | Maen Prawf Asesu<br>Gall y dysgwr: | |
| 1 | Gallu monitro gweithrediad rhaglen Addysg Gorfforol a Chwaraeon Ysgol o Ansawdd Uchel | 1.1 | Esbonio pwysigrwydd yr adolygiadau i athro/athrawon, disgybl/disgyblion, rhiant/rhieni ac eraill a'u hannog i gyfrannu |
| | | 1.2 | Gwerthuso gweithrediad y rhaglen yn seiliedig ar amserlen adolygu a gynlluniwyd ymlaen llaw |
| | | 1.3 | Casglu a chofnodi gwybodaeth monitro ar adegau a gynlluniwyd drwy gydol y rhaglen |
| | | 1.4 | Gwirio bod y wybodaeth a gesglir yn ddilys ac yn ddibynadwy |
| | | 1.5 | Coladu'r wybodaeth mewn ffordd a fydd yn ei helpu i gael ei dadansoddi |
| | | 1.6 | Dadansoddi'r wybodaeth a'r adborth i benderfynu:<br>• P'un a wnaeth y rhaglen gyflawni ei nodau arfaethedig<br>• P'un a wnaeth y rhaglen herio a gosod disgwyliadau uchel i bob dysgwr<br>• P’un a oedd cynnwys, strwythur, ehangder a chydbwysedd y rhaglen yn briodol<br>• Priodoldeb yr adnoddau<br>• P'un a oedd y rhaglen yn ddiogel ac yn hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol tuag at ddysgu<br>• Ei berfformiad ei hun a chyfraniadau pobl eraill |
| | | 1.7 | Trin gwybodaeth gyfrinachol yn briodol |
| | | 1.8 | Esbonio'r effaith y bydd argymhellion ar gyfer gwella yn ei chael ar raglenni'r dyfodol |
| 2 | Gallu monitro ac adolygu ei gyfraniadau ei hun i'r rhaglen Addysg Gorfforol a Chwaraeon Ysgol | 2.1 | Myfyrio ar bob agwedd ar ei ymarfer addysgu/hyfforddi a dysgu cyfredol ei hun drwy gydol y rhaglen |
| | | 2.2 | Datblygu a chofnodi cynllun gweithredu personol a fydd yn helpu i wella ei ymarfer addysgu/hyfforddi a dysgu ei hun ar gyfer meysydd a nodwyd |
| | | 2.3 | Nodi gweithgareddau datblygu a all gyfrannu at gynllun gweithredu personol |
| | | 2.4 | Cymryd rhan mewn gweithgareddau datblygu i wella ei berfformiad addysgu/hyfforddi a dysgu personol ei hun |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 3 | Gallu darparu cymorth i ddatblygu oedolion eraill sy'n cefnogi dysgwyr | 3.1 | Disgrifio'r sgiliau a'r wybodaeth nodweddiadol sydd eu hangen ar oedolion eraill sy'n cefnogi dysgwyr |
| | | 3.2 | Gwerthuso adnoddau dysgu a allai gefnogi datblygiad oedolion eraill sy'n cefnogi dysgwyr |
| | | 3.3 | Esbonio darparu canllawiau a chymorth datblygu i oedolion eraill sy'n cefnogi dysgwyr o fewn ei lefel arbenigedd ei hun |
| | | 3.4 | Darparu datblygiad a chymorth mewn modd ac ar lefel a chyflymder sy'n briodol i oedolion eraill sy'n cefnogi anghenion dysgwyr |
| | | 3.5 | Gwerthuso deilliannau'r datblygiad a'r cymorth a ddarperir |
| | | 3.6 | Rhoi adborth i oedolion eraill sy'n cefnogi dysgwyr ar eu perfformiad a'u cyfraniadau |
| | | 3.7 | Nodi pobl berthnasol a all ddarparu cyngor ar faterion y tu allan i'w faes cymhwysedd neu awdurdod ei hun |


Copyright © Focus Awards. All rights reserved

# Gofynion o ran Staff

## Gofynion ar gyfer Tiwtoriaid/Hyfforddwyr

Bydd gofyn i diwtoriaid sy'n cyflwyno'r cymhwyster feddu ar gymhwyster addysgu neu fod yn gweithio tuag ato. Gall hyn gynnwys cymwysterau fel Lefelau 3, 4 neu 5 mewn Addysg a Hyfforddiant, neu Dystysgrif mewn Addysg. Fodd bynnag, bydd Focus Awards yn ystyried cymwysterau addysgu eraill wrth wneud cais. Rhaid i diwtoriaid hefyd allu dangos eu bod yn gymwys yn alwedigaethol ym maes y sector.

## Gofynion ar gyfer Aseswyr

Bydd gofyn i aseswyr feddu ar gymhwyster asesu perthnasol, neu fod yn gweithio tuag ato. Mae hyn yn cynnwys cymwysterau fel:

- Dyfarniad Lefel 3 mewn Asesu Cymhwysedd yn yr Amgylchedd Gwaith
- Dyfarniad Lefel 3 mewn Asesu Cyflawniad sy'n Gysylltiedig â Galwedigaeth
- Tystysgrif Lefel 3 mewn Asesu Cyflawniad Galwedigaethol

Fodd bynnag, bydd Focus Awards yn ystyried cymwysterau asesu perthnasol eraill wrth wneud cais.
Bydd yn ofynnol i aseswyr sydd ond yn meddu ar Ddyfarniad Lefel 3 mewn Deall Egwyddorion a Phrosesau Asesu gwblhau rhaglen astudio ychwanegol i gyflawni'r unedau cymhwysedd perthnasol sy'n ofynnol ar gyfer un o'r cymwysterau a restrir uchod.
Bydd yn ofynnol i benderfyniadau aseswyr dan hyfforddiant nad oes ganddynt gymhwyster asesu gael eu cydlofnodi gan asesydd â chymwysterau addas.
Rhaid i aseswyr hefyd allu dangos eu bod yn gymwys yn alwedigaethol ym maes y sector.

## Gofynion ar gyfer Sicrhawyr Ansawdd Mewnol

Dylai Sicrhawyr Ansawdd Mewnol feddu ar gymhwyster Sicrhau Ansawdd Mewnol, neu fod yn gweithio tuag ato. Gall hyn gynnwys cymwysterau fel V1 (D34 gynt), neu Ddyfarniad Lefel 4 mewn Sicrhau Ansawdd Mewnol Prosesau ac Arferion Asesu. Fodd bynnag, bydd Focus Awards yn ystyried cymwysterau perthnasol eraill Sicrhau Ansawdd Mewnol wrth gyflwyno cais. Bydd yn ofynnol i benderfyniadau Sicrhawyr Ansawdd Mewnol dan hyfforddiant nad oes ganddynt gymhwyster Sicrhau Ansawdd Mewnol gael eu cydlofnodi gan Sicrhawr Ansawdd Mewnol â chymwysterau addas. Rhaid i Sicrhawyr Ansawdd Mewnol allu dangos cymhwysedd galwedigaethol.


Copyright © Focus Awards. All rights reserved

# Geirfa ddefnyddiol o'r termau a ddefnyddir yn y fanyleb hon

Mae'r tabl hwn yn esbonio sut mae'r termau a ddefnyddir yng nghynnwys Manyleb Cymwysterau Focus Awards yn cael eu defnyddio. Nid yw pob term o reidrwydd yn cael ei ddefnyddio yn y cymhwyster hwn.

| | |
|---|---|
| Adolygu a diwygio | Edrych yn ôl dros y pwnc a gwneud cywiriadau neu newidiadau i wella eglurder neu arddangos dealltwriaeth yn well. |
| Allosod | Defnyddio gwybodaeth a data sy'n bodoli eisoes i ragfynegi deilliannau neu ganlyniadau posibl a allai fod y tu hwnt i'r 'norm' disgwyliedig. |
| Amcangyfrif | Defnyddio gwybodaeth, profiad a gwybodaeth berthnasol arall sy'n bodoli eisoes i nodi barn fras neu 'amcan gorau'. |
| Arddangos | Disgrifio neu esbonio gwybodaeth neu ddealltwriaeth drwy ddarparu enghreifftiau neu ddarluniau. |
| Barnu | Llunio barn neu wneud penderfyniad. |
| Coladu | Casglu a threfnu gwybodaeth mewn trefn resymegol (e.e. yn nhrefn yr wyddor, yn rhifiadol, yn gronolegol ayyb.). |
| Crynhoi | Cyfleu'r prif syniadau neu ffeithiau yn gryno. |
| Cyfiawnhau | Rhoi esboniad boddhaol ar gyfer gweithredoedd neu benderfyniadau. |
| Cyflawni | Ymgymryd â thasg neu broses i fodloni gofynion y cwestiwn. |
| Cymharu | Archwilio'r pynciau yn fanwl i nodi gwahaniaethau a thebygrwydd. |
| Cymharu'n feirniadol | Yn debyg i 'gymharu' uchod, ond gan ystyried unrhyw agweddau cadarnhaol a/neu gyfyngiadau sy'n codi o'r gwahaniaethau a'r tebygrwydd a nodwyd. |
| Cymhwyso | Esbonio sut y gellir defnyddio gwybodaeth bresennol mewn sefyllfaoedd newydd neu wahanol. |
| Cynllunio | Llunio a chofnodi (rhestru) dilyniant rhesymegol, trefnus o wybodaeth, adnoddau a chamau/digwyddiadau gofynnol sy'n galluogi cysyniad neu syniad i gael ei grisialu a'i gyfathrebu. |
| Dadansoddi | Torri'r pwnc yn rhannau unigol. Archwilio pob un, dangos sut maen nhw'n cyd-fynd â'i gilydd, p'un a ydyn nhw'n cefnogi ei gilydd a pham maen nhw'n bwysig. Gall cyfeirio at ymchwil neu theori gyfredol ychwanegu at eich dadansoddiad. |
| Dangos | Darparu tystiolaeth i ddangos gwybodaeth a dealltwriaeth gywir. |
| Darparu | Nodi a chyflwyno gwybodaeth fanwl a chywir sy'n gysylltiedig â'r pwnc. |

| | |
|---|---|
| Datblygu... | Ehangu cynllun neu syniad drwy ychwanegu mwy o fanylion a/neu ddyfnder gwybodaeth. |
| Datgan | Rhoi'r prif bwyntiau'n glir mewn brawddegau neu baragraffau. |
| Dehongli | Esbonio ystyr rhywbeth. |
| Dewis | Gwneud dewis gwybodus at ddiben penodol neu ddeilliant/canlyniad gofynnol. |
| Diagnosio | Coladu ac ystyried tystiolaeth briodol i nodi achos neu darddiad sefyllfa neu broblem. |
| Disgrifio | Ysgrifennu am y pwnc, gan gyflwyno gwybodaeth fanwl yn rhesymegol. |
| Dod i gasgliadau... | Derbyn rheswm neu benderfyniad neu farn ar sail rhesymeg. |
| Dosbarthu | Trefnu yn unol â meini prawf penodol. |
| Egluro | Esbonio'r wybodaeth a gyflwynir yn glir ac yn gryno. |
| Esbonio | Cyflwyno gwybodaeth fanwl am y pwnc gyda rhesymau sy'n dangos sut neu pam y mae'n cael ei chynnwys. Dylech gynnwys enghreifftiau i gefnogi'r rhesymau hyn lle bo hynny'n bosibl. |
| Gwahaniaethu (esbonio) | Esbonio'r gwahaniaeth rhwng 2 neu fwy o eitemau, adnoddau, darnau o wybodaeth. |
| Gwahaniaethu (nodi) | Nodi'r gwahaniaethau rhwng 2 neu fwy o ddadleuon, sefyllfaoedd neu bynciau. |
| Gweithredu | Esbonio sut i roi syniad neu gynllun ar waith. |
| Gwerthuso | Archwilio cryfderau a gwendidau, ystyried dadleuon o blaid ac yn erbyn, a/neu debygrwydd a gwahaniaethau. Asesu unrhyw dystiolaeth a gyflwynir o wahanol safbwyntiau a dod i gasgliad dilys neu ddyfarniad rhesymegol. Gall cyfeirio at ymchwil neu theori gyfredol gefnogi'r gwerthusiad. |
| Myfyrio | Ystyried gweithredoedd, profiadau neu ddysgu a sut y gall y rhain effeithio ar ymarfer a/neu ddatblygiad proffesiynol. |
| Nodi | Adnabod ac enwi'r prif bwyntiau'n gywir. Efallai y bydd angen disgrifiad neu esboniad ychwanegol i gynorthwyo eglurder ac i briodoli hygrededd. |
| Trafod | Creu cyfrif manwl o ystod o safbwyntiau, barn neu bersbectif. |
| Ystyried | Meddwl yn feirniadol am sefyllfa, problem, gweithred neu benderfyniad a gyflwynir, a'i esbonio. Gellir hefyd 'esbonio' isod. |



Copyright © Focus Awards. All rights reserved

FOCUS AWARDS

## Adborth yr Asesydd

| | |
|---|---|
| **Enw'r Myfyriwr:** | |
| **Rhif y Myfyriwr:** | |
| **Cwrs:** | |
| **Uned(au):** | |
| **Meini prawf:** | |
| **Dyddiad:** | |
| **Sylwadau:** | |
| | |
| **Penderfyniad:** | |
| **Camau Pellach:** | |
| **Asesydd** | |
| **Swydd:** | |

# Adroddiad Sicrhau Ansawdd Mewnol



Copyright © Focus Awards. All rights reserved

| **Cymhwyster:** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Asesydd:** | | | Sicrhawr Ansawdd Mewnol: | |
| **Enw'r Ymgeisydd** | Uned(au) a Samplwyd | | Dulliau Asesu | Sylwadau |
| | | | | |
| | | Llofnod y Sicrhawr Ansawdd Mewnol | | |
| | | Llofnod yr Asesydd | | |

FOCUS AWARDS